# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 54
12/04/21

## Llawer o bobl yn gweld Iesu

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Delyth Wyn Davies
a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

# Stori



**Fersiwn Beibl.net**




Y prif beth wnes i ei rannu gyda chi oedd beth dderbyniais i, sef: bod y Meseia wedi marw dros ein pechodau ni, fel mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud. Yna ei fod wedi'i gladdu, a'i fod wedi'i godi yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn, fel mae'r ysgrifau'n dweud. Wedyn bod Pedr wedi'i weld, a'r deuddeg disgybl. Ar ôl hynny, cafodd ei weld ar yr un pryd gan dros bum cant o'n brodyr a'n chwiorydd ni sy'n credu! Mae'r rhan fwya ohonyn nhw'n dal yn fyw heddiw, er bod rhai sydd bellach wedi marw. Yna gwelodd Iago fe, a'i gynrychiolwyr eraill i gyd.

*1 Cor 15:3-7 Beibl.net*



**Fersiwn syml**

Dywedodd Paul mewn llythyr at y Corinthiaid am atgyfodiad Iesu, “Rhannaf gyda chi beth dderbyniais i, fod Iesu wedi ei gladdu, ac ar ôl deuddydd daeth yn ôl yn fyw, fel sydd wedi ei ysgrifennu yn yr ysgrifau. Gwelodd Pedr a’r deuddeg disgybl Iesu. Ar ôl hynny cafodd Iesu ei weld gan dros bum cant o gredinwyr eraill ar yr un pryd. Mae llawer o’r rhain dal yn fyw heddiw. Y rhai olaf i weld Iesu, cyn i mi ei weld, oedd Iago a’r apostolion eraill.”



# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Beth ydy’r peth mwyaf anhygoel rwyt ti wedi ei weld erioed?
2. Wrth bwy wnest ti ddweud beth oeddet ti wedi ei weld? Wnaethon nhw dy gredu di?
3. Pwy gafodd weld Iesu ar ôl iddo ddod yn ôl yn fyw?
4. Pe bait yn cael gweld Iesu heddiw, beth fuaset ti eisiau ei ofyn iddo?



# Gweddi fer



O Dduw, diolch i Ti fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw.
Diolch i Ti am y bobl gafodd weld Iesu’n fyw.
Diolch i Ti eu bod nhw wedi dweud yr hanes, a’n bod yn cael ei ddarllen yn y Beibl.
Amen.

# Stori i'w lliwio

## Mae'n fyw! Llawer o bobl yn gweld Iesu


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Sut ydym ni'n gwybod fod Iesu wedi codi o farw'n fyw? Wel, dewch i ni edrych beth sy'n cael ei ddweud am hyn yn y Beibl a'r bobl welodd Iesu wedi atgyfodi.



Roedd Iesu, Mab Duw, yn y bedd am dri diwrnod a dwy noson. Ond yn gynnar fore Sul cododd o farw'n fyw a chafodd ei weld gan Mair Magdalen.



Dywedodd Mair wrth Pedr ac Ioan fod Iesu'n fyw! Fe redon nhw'n gyflym at y bedd i weld drostyn nhw eu hunain. Daethant o hyd i'r garreg fawr oedd dros geg y bedd, wedi ei symud. Roedd y bedd yn wag a dim ond dillad claddedigaeth Iesu yno.




Roedd dau ddyn yn cerdded ar hyd y ffordd ac roedden nhw'n sgwrsio â'i gilydd. Roedden nhw mor siomedig a digalon am fod Iesu wedi marw. Roedden nhw'n meddwl mai Iesu oedd y Meseia a oedd wedi ei addo. Ymddangosodd Iesu iddynt ac eglurodd iddynt bethau oedd wedi eu dysgu amdano yn yr Hen Destament.



Y noson honno roedd rhai o ffrindiau Iesu mewn ystafell â'r drws ynghau. Yn sydyn, ymddangosodd Iesu yn eu plith. Roedden nhw wrth eu bodd ei weld a phan welsant ef dyna nhw'n credu fod Iesu wedi atgyfodi.



Ychydig yn ddiweddarach, dychwelodd saith o ddisgyblion Iesu oedd wedi bod yn pysgota, i gael cwmni Iesu ar y traeth. Roedd o'n coginio brecwast o bysgod ar eu cyfer. Yn wir, roedd Iesu'n fyw!



Yna'n ddiweddarach, cafodd Iesu ei weld gan dyrfa fawr. Roedd mwy na phum cant o bobl, yn cynnwys ei ffrindiau a'i ddilynwyr yno. Fe wnaethon nhw ei weld a chredu ynddo!



Pan ddychwelodd Iesu at ei Dad yn y nefoedd, gwyliodd unarddeg o'i ddisgyblion ef yn mynd. Gwelodd lawer o bobl Iesu â'u llygaid eu hunain fod Iesu wedi atgyfodi ac fe dystion nhw fod Iesu'n fyw.

# Sialensau



## Croes Liwgar

Dylunia groes ar gardfwrdd. Torra'r groes allan a defnyddia bapur sidan o wahanol liwiau i addurno'r bwlch.


Yna rho'r groes liwgar i hongian yn dy ffenestr.

## Pum cant!

Yn y stori mae yna 500 o bobl yn gweld Iesu'n fyw ar yr un pryd!
Faint o ffyrdd gwahanol alli di wneud y rhif 500?
Dyma i ti un ffordd: 10 x 50




## Cerdyn Gwahoddiad i'r Ysgol Sul/Clwb Plant




Dylunia gerdyn gwahoddiad i'r Ysgol Sul/clwb gyda llun yr atgyfodiad neu unrhyw beth yn gysylltiedig â'r Pasg arno a'i anfon at ffrind

## Beth wyt ti'n ei gredu?




Mae rhai pobl yn barod i gredu mewn pethau y gallant eu gweld yn unig. Ond mae yna lawer o bethau na allwn eu gweld fel gwynt a thrydan.
Mae rhai pobl yn gwrthod credu yn Iesu oherwydd nad ydyn nhw'n gallu ei weld.

Beth wyt ti'n ei gredu a pham?

# Posau

## Newyddion da!

Roedd yr holl bobl welodd Iesu'n fyw eisiau dweud y newyddion da wrth bawb.
Defnyddia'r cod i liwio'r llun.
Rho'r llun yn rhywle amlwg i bawb ei weld.




Fedri di gwblhau'r adnod gan ddefnyddio'r cod?

| |
|---|
| a = ◁ |
| d = ♎ |
| dd = ⇦ |
| e = ⇨ |
| i = ↓ |
| n = ■ |
| y = ⍓ |

♎⍓♎⍓ ⇨ ⇦↓m ⍓m◁; m◁⇨ w⇨♎↓ ♎o♎ ⍓■ ôl

⍓■ f⍓w! ♎⍓■◁'■ u■↓o■ b⇨th ⇦w⇨♎o⇦

f⍓⇦◁↓'■ ♎↓gw⍓⇦. M◁th⇨w 28 ◁♎■o♎ 6◁

# Gweddi Greadigol



## Bocs diolch am y bedd gwag

Ysgrifenna weddi bob dydd yr wythnos hon. Cofia ddiolch i Iesu am yr hyn wnaeth o drosot ti ar y groes ac am ddod yn ôl yn fyw a diolcha ei fod yn fyw heddiw. Rholia'r papurau a'u gosod yn y bocs mewn siâp y bedd gwag.

## Rhuban dathlu a moli

Mae'r hanes am Iesu yn dod yn ôl yn fyw yn rheswm i ddathlu a dawnsio!







**Byddi angen:**

- Rhubanau amrywiol – fel rhubanau i glymu anrhegion
- Darn o gerdyn (tua 10cm x 15cm)
- Staplwr
- Tâp gludiog


**Beth i'w wneud:**

- Plyga'r darn o gerdyn yn ei hanner.
- Gosod y rhubanau wrth ochr ei gilydd at hanner y cerdyn.
- Stapla'r cerdyn dros y rhubanau.
- Rho ddarnau o dâp gludiog dros y staplau.
- Meddylia am Iesu yn dod yn ôl yn fyw a dawnsia, rheda a neidia gyda'r rhubanau yn dy law.
- Efallai fod gennyt ti hoff gân am Iesu y buaset yn gallu dawnsio iddi gyda dy rubanau.


## Dolenni





Fideo o'r stori
https://youtu.be/c1Ru2mC98Jo




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/jC2EoqEh_Jc



Cartŵn (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=XOgKAAuEpcE&list=PLYn06r4leL_RguA_6LO-11rkjEsNb21oa&index=7



# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | P | I | L | I | PH | I | C | R | E | D | U |
| A | N | D | R | E | A | S | D | S | L | P | E |
| R | D | U | W | U | D | A | I | E | S | E | M |
| TH | D | Y | M | A | TH | E | W | M | A | D | U |
| O | B | U | R | S | R | G | R | B | O | R | W |
| L | E | I | W | D | U | W | N | R | DD | N | L |
| O | A | P | M | U | P | E | O | Y | I | O | B |
| M | E | R | CH | E | D | A | D | N | G | A | Y |
| E | N | D | U | W | I | Y | C | A | N | T | G |
| U | S | E | I | D | R | N | I | O | TH | D | S |
| S | O | M | O | T | Y | S | T | I | O | N | I |
| H | E | DD | I | W | C | G | E | DD | U | E | D |

ANDREAS
BARTHOLOMEUS
BYW
CANT
CREDU
DEUDDEG
DISGYBL
DIWRNOD
DWEUD
GWELD
HEDDIW
IAGO
IESU
IOAN
MAIR
MATHEW
MERCHED
MESEIA
PEDR
PHILIP
PUMP
SIMON
TOMOS
TRYDYDD
TYSTION
THADEUS

# Rysáit

## Y Bedd Gwag

**Cynhwysion**

- Toesenni wedi eu gorchuddio â siocled neu doesenni siâp modrwy
- Bisgedi Oreo
- Eisin
- Bisgedi Berffro neu fisgedi eraill fel ‘sylfaen’

**Dull**

- Gosoda’r fisgeden Berffro neu’r fisgeden arall fel ‘sylfaen’ ar blât.
- Gorchuddia’r fisgeden ‘sylfaen’ ag eisin.
- Ar yr eisin gosoda’r doesen ar ei hochr i gynrychioli’r bedd gwag.
- Gosoda’r Oreo o flaen y doesen i gynrychioli’r garreg wedi ei rholio ymaith.





# Gemau

## Gwir neu gau!

Mae llawer o bobl yn y stori yn gweld Iesu'n fyw eto, roedden nhw yn dystion fod Iesu wedi atgyfodi. Roedden nhw'n dweud y gwir. Yn y gêm rhaid penderfynu pwy sy'n dweud y gwir neu'n twyllo.




**Byddi angen:** Pecyn o gardiau chwarae, 3 neu fwy o chwaraewyr

**Sut i chwarae:**

- Rhanna'r un faint o gardiau i bawb sy'n chwarae. Rho unrhyw gardiau dros ben wyneb i lawr yng nghanol y bwrdd.
- Mae'r chwaraewr cyntaf yn cychwyn gyda rhif 1 ('ace').
  Os oes ganddo gerdyn 'ace' mae'n ei roi, wyneb i lawr, ar ben y cardiau ar ben y pentwr yn y canol, a dweud 'un 'ace''.
  Os nad oes ganddo 'ace' mae'n gallu rhoi cerdyn rhif arall a dal i ddweud 'un 'ace''.
  Os ydw eisiau cael gwared â mwy nag un cerdyn, gall roi un 'ace a cherdyn arall a dweud 'dau 'ace''.
- Mae'r chwaraewr nesa' yn rhoi cerdyn rhif 2, y chwaraewr nesa' rhif 3, ac ymlaen felly.
- Os ydy chwaraewr arall yn amau fod chwaraewr yn twyllo, mae'n dweud 'twyll!'.
  Yna mae'n rhaid i'r chwaraewr sydd wedi rhoi'r cardiau ar y pentwr ddangos ei gardiau.
  Os ydy o wedi twyllo, rhaid iddo godi'r holl gardiau o'r pentwr.
  Os nad ydy o'n twyllo, rhaid i'r chwaraewr ddwedodd 'twyll' godi'r cardiau i gyd.
- Daliwch i fynd i fyny'r rhifau nes y byddwch yn cyrraedd cerdyn y brenin, a chychwyn gyda 'ace' eto.
- Yr enillydd ydy'r person sydd yn cael gwared â'i gardiau i gyd.

## Gêm rholio'r peli



**Byddi angen:**


- Bocs â thwll ynddo
- Peli o wahanol feintiau

**Sut i chwarae:**

- Rholia'r peli, o bellter rhesymol, drwy'r twll i mewn i'r bocs.
- Rho sgoriau gwahanol yn dibynnu ar faint pob pêl.

# Canu

UN – wnaeth Mair gwrdd ag Ef yn yr ardd.
UN ARALL – Gwelodd Pedr fod y bedd yn wag.
DAU – oedd yn cerdded ar y ffordd i Emaus.
SAITH – yn y cwch ar y llyn.
UNDEG UN – o ddisgyblion mewn 'stafell yn y dre.
UNDEG DAU – Tro hwn roedd Tomos yn y lle
ac wedyn DROS BUM CANT – ar yr un dydd,
Ah ha! DROS BUM CANT – ar yr un pryd,
Ie! DROS BUM CANT – oedd yno i gyd
Gyda Iesu - yr Arglwydd Iesu
Ac roedd Iesu wedi dod yn ôl yn fyw.



*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/jC2EoqEh_Jc
Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes: ahughes@saintygymuned.org